Tasg 1

(Estynnol, sbardun 3)

Chwiliwch am y berfau a'r arddodiaid sy'n **rhedeg** yn y darn hwn:

Deffrais yn gynnar y bore yma ac edrych ar fy ffôn. Yr amser arno oedd 6:00. Codais o'r gwely, gwisgo a chodi fy esgidiau rhedeg o'r llawr. Doeddwn i ddim eisiau mynd hebddyn nhw! Ar ôl brecwast sydyn, daeth neges ar fy ffôn. "Welaf i di wrth y parc." Dylan anfonodd y neges, wrth gwrs. Roeddwn wedi bod yn disgwyl amdani cyn gadael y tŷ.

Agorais y drws ffrynt, camu allan i'r stryd a'i gau eto. Roedd y rhif ar y drws bron â chwympo i ffwrdd – doeddwn i ddim wedi sylwi arno cyn heddiw. Dechreuais redeg yn syth a theimlo'r palmant yn galed danaf. O bell, gallwn weld Dylan yn eistedd ar y wal wrth y parc. Cododd ei law arnaf a rhedais innau tuag ato.